Llywodraeth Cymru
Welsh Government

POLISI A STRATEGAETH

# Cynllun gwaith polisi trethi 2017

Mae'r cynllun gwaith hwn yn amlinellu'r blaenoriaethau ar gyfer blwyddyn gyntaf fframwaith polisi treth Llywodraeth Cymru. Ymgymerir â rhai blaenoriaethau ymchwil dros sawl blwyddyn.

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 20 Mehefin 2017

**Diweddarwyd ddiwethaf:** 20 Mehefin 2017

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/cynllun-gwaith-polisi-trethi-2017-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Codi refeniw i gefnogi gwasanaethau cyhoeddus

1. Erbyn Hydref 2017, cyhoeddi’r cyfraddau a’r bandiau ar gyfer y dreth trafodiadau tir, gan gynnwys y gordal ar gyfer cyfraddau uwch, a’r cyfraddau ar gyfer y dreth gwarediadau tirlenwi.

## Cyflawni’r amcanion polisi a amlinellwyd yn Symud Cymru Ymlaen: Ffyniannus a Diogel

2. Adolygu rhyddhad ardrethi i fusnesau bach er mwyn datblygu trefniadau parhaol o 2018 ymlaen.
3. 3. Parhau i ddadlau’r achos dros ddatganoli’r Doll Teithwyr Awyr, a datblygu rhagor ar y sylfaen o dystiolaeth er mwyn cefnogi’r achos.
4. Archwilio i ganfod a allai’r system dreth ddatganoledig helpu i roi cymhellion ar gyfer cartrefi sy’n fwy effeithlon o ran ynni.
5. Ystyried yr achos dros gyflwyno trethi newydd yng Nghymru, gan archwilio’r elfennau polisi a’r elfennau gweinyddol a’r mecanwaith ar gyfer newid.

## Cyflawni’r amcanion polisi a amlinellwyd yn Symud Cymru Ymlaen: Iach ac Egnïol

6. Yn 2017 a 2018, gweithio gyda Llywodraeth y DU i helpu i gefnogi cyflwyno Ardoll y Diwydiant Diodydd Meddal yn llwyddiannus yng Nghymru.

## Cyflawni’r amcanion polisi a amlinellwyd yn Symud Cymru Ymlaen: Unedig a Chysylltiedig

7. Gweithio gyda llywodraeth leol i adolygu’r dreth gyngor er mwyn ei gwneud

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/cynllun-gwaith-polisi-trethi-2017-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

yn decach.

8. Pan fydd gan ACC ddigon o ddata, bydd yn dadansoddi data'r dreth trafodiadau tir o safbwynt gordal y gyfradd uwch fesul awdurdod lleol. Gellid defnyddio hyn yn sail i drafodaethau gydag awdurdodau lleol ynghylch gweithrediad y gyfradd uwch.

## Ymgysylltu â threthdalwyr Cymru er mwyn sicrhau bod cyfraith treth yn glir a'i bod yn cael ei gweinyddu yn effeithlon

9. Yn ystod 2017, ymgynghori ar y defnydd o bwerau troseddol gan Awdurdod Cyllid Cymru yn rhan o'r dull o fynd ati i orfodi trethi Cymreig.

## Gwella'r sylfaen o dystiolaeth

10. Datblygu arfau dadansoddol er mwyn cefnogi datblygiad polisi treth incwm yng Nghymru.
11. Adolygu'r dystiolaeth ar gyfer pennu'r cydbwysedd trethiant rhwng incwm ac eiddo.
12. Archwilio i ganfod a allai gwahanol ddulliau o fynd ati i drethu eiddo annomestig, megis trethu gwerth tir, ddod â buddiannau i Gymru.
13. O fis Hydref, gweithio gyda'r Sefydliad Polisi Cyhoeddus i Gymru i adolygu'r ffactorau a'r tueddiadau economaidd-gymdeithasol a allai effeithio ar sylfaen dreth Cymru, a'r ffactorau a allai helpu i gynyddu'r sylfaen dreth yng Nghymru.

**Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/cynllun-gwaith-polisi-trethi-2017-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/cynllun-gwaith-polisi-trethi-2017-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.